WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

23 Medi 2008
www.wao.gov.uk

# Cod Ymarfer ar Baru Data Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Cod Ymarfer ar Baru Data Archwilydd Cyffredinol Cymru

Rwyf wedi paratoi'r Cod Ymarfer hwn ar Baru Data, yn dilyn proses ymgynghori statudol, i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

**Jeremy Colman**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n archwilio ac yn gwirio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth y Cynulliad a chyrff cyhoeddus a noddir gan, neu sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Hefyd, mae ganddo'r hawl statudol i wneud adroddiad ar gynildeb, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y cyrff hynny ac i wella'u defnydd o adnoddau wrth gyflawni'u dyletswyddau.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal a hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn archwilio cydymffurfiaeth â gofynion gwerth gorau dan Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Fodd bynnag, er mwyn diogelu safle cyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'r adrodd yn ôl yn benodol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y gwaith llywodraeth leol hwn, ar wahan i phan y mae'n ofynnol i wneud hynny gan ddeddf.

Yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, byddwch cystal ag ysgrifennu at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 029 2032 0500, e-bost: wales@wao.gov.uk, neu gwelwch ein gwefan http://www.wao.gov.uk

Ⓗ Archwilydd Cyffredinol Cymru 2008

Gellir ail-ddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (gan eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat. Mae'n rhaid ei ail-ddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a dylid nodi teitl y cyhoeddiad hwn.

Adroddiad a gyflwynwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 23 Medi 2008

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Rhagair gan Archwilydd Cyffredinol Cymru | 6 |
| | Rhagair gan y Comisiynydd Gwybodaeth | 7 |
| 1 | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn mynd ati i baru data er mwyn atal a chanfod twyll, ac mae wedi paratoi'r Cod hwn i gynorthwyo pawb sy'n cymryd rhan mewn gwaith o'r fath | 8 |
| | Mae a wnelo paru data â chymharu gwybodaeth, megis y gyflogres, oddi wrth amrywiaeth o ffynonellau er mwyn nodi achosion o dwyll, ac felly wella gwerth am arian | 8 |
| | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn mynd ati i baru data yn unol â fframwaith statudol, ac mae'r Cod hwn yn ofyniad statudol | 9 |
| | Diben y Cod yw helpu pob corff sy'n ymwneud â pharu data i gydymffurfio â'r gyfraith ac arfer da, a hysbysu unigolion o'r broses paru data | 10 |
| | Gall fod yn ofynnol i gyrff llywodraeth leol a chyrff y GIG ddarparu data personol am eu cyflogeion, aelodau a defnyddwyr gwasanaethau at ddibenion paru data, a gall cyrff eraill gymryd rhan hefyd | 11 |
| | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i bob Corff sy'n Cymryd Rhan enwebu uwch aelodau priodol o staff i fod yn gyfrifol am ymarferion paru data ac mae'n darparu llawlyfrau i'w cynorthwyo | 11 |
| | Dim ond pan fo risg sylweddol o dwyll y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn paru data | 12 |
| 2 | Tegwch a thryloywder: Rhaid i Gyrff sy'n Cymryd Rhan hysbysu pobl o'r ffaith bod eu data yn cael eu paru, oni fydd eithriad yn gymwys | 14 |
| | Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn argymell hysbysiadau prosesu teg haenog | 14 |
| | Dylai Cyrff sy'n Cymryd Rhan ddarparu hysbysiadau prosesu teg cryno wrth gasglu data personol newydd neu hysbysiadau ôl-weithredol pan fo'r cyfle hwn wedi mynd heibio | 15 |
| | Dylai Cyrff sy'n Cymryd Rhan fod yn ofalus wrth ymdrin â data sy'n ymwneud â phobl sydd wedi marw | 16 |
| | Rhaid i Gyrff sy'n Cymryd Rhan gofrestru ar gyfer dibenion prosesu atal a chanfod twyll gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth | 16 |

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn darparu gwybodaeth am ei ymarferion paru data 16

3 Safonau Gwybodaeth: Dylai Cyrff sy'n Cymryd Rhan sicrhau bod y data personol a ddarperir ganddynt o ansawdd digonol 17

4 Diogelwch: Rhaid i Gyrff sy'n Cymryd Rhan a'r Archwilydd Cyffredinol ddiogelu'r data personol a'r wybodaeth gysylltiedig dan sylw 18

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn sicrhau bod ymarferion paru data yn cael eu cynnal mewn ffordd deg ac mai dim ond er mwyn helpu i atal a chanfod twyll y gwneir hynny 19

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn sicrhau bod allbwn paru data yn cael ei ddosbarthu'n ddiogel 19

Caiff y broses o ddatgelu data a ddefnyddir mewn ymarferion paru data ei rheoli'n llym 20

5 Cadw data: ni chaiff y data eu cadw yn fwy nag sydd ei angen 21

6 Cyfyngir ar yr hawl i weld data personol a gwybodaeth am fanylion ymarferion paru data 22

7 Adolygu: Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn adolygu gweithdrefnau paru data yn rheolaidd ac yn gwahodd y Comisiynydd Gwybodaeth i asesu cydymffurfiaeth 23

Atodiadau

Atodiad 1 - Diffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y Cod 24

Atodiad 2 - Enghreifftiau o hysbysiadau prosesu teg haenog arfer da 25

Atodiad 3 - Darpariaethau statudol perthnasol 30

Atodiad 4 - Manylion cyswllt 39

# Rhagair gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Cod Ymarfer hwn ar Baru Data i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae Deddf Troseddau Difrifol 2007 wedi addasu Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, gan roi pwerau newydd i mi i gynnal ymarferion paru data. Mae'r gwaith o baratoi'r Cod hwn, yn dilyn ymgynghoriad, yn ofyniad statudol, a rhaid i bawb sy'n cymryd rhan mewn ymarferion paru data a wneir o dan y ddeddfwriaeth hon ddilyn y Cod.

Gall y broses o baru data fod yn ddull pwerus o nodi achosion o dwyll a gordaliadau. Er enghraifft, nododd fy ngwaith gyda'r Comisiwn Archwilio a chyrff sector cyhoeddus yng Nghymru ar Fenter Twyll Genedlaethol 2006/2007 £4.5 miliwn o dwyll a gordaliadau yng Nghymru. Ond mae angen gwneud gwaith o'r fath yn ofalus er mwyn osgoi ymyrryd â busnes pobl yn ddiangen.

Felly mae'r Cod hwn yn hybu cydymffurfiaeth â'r gyfraith ac arfer da ar ran pawb sy'n cymryd rhan mewn ymarferion paru data a wneir gan ddefnyddio fy mhwerau i. Rwyf wedi'i ddatblygu gan ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad statudol a Chod Ymarfer ar Fframwaith Rhannu Gwybodaeth y Comisiynydd Gwybodaeth. Bydd yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth am bobl yn cael ei diogelu a'i phrosesu'n briodol yn ystod ymarferion paru data. Mae hefyd yn helpu i hysbysu unigolion o'r rheswm dros baru eu data, y safonau a'r mesurau diogelwch sy'n gymwys ac ymhle i gael rhagor o wybodaeth.



Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Rhagair gan y Comisiynydd Gwybodaeth

Mae'r angen i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus rhag y rhai sy'n ceisio gwneud hawliadau twyllodrus yn parhau i beri pryder ymhlith y cyhoedd. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi dangos bod ymarferion paru data yn helpu i nodi'r hawliadau twyllodrus, atal gordaliadau, a galluogi cyrff sy'n cymryd rhan yn yr ymarferion i fynd i'r afael â'r materion hyn ar lawr gwlad. Fodd bynnag, mae coladu a defnyddio symiau mawr o wybodaeth bersonol yn y ffordd hon yn parhau i arwain at risgiau sylweddol o ran diogelu data. Yn aml, ni fydd gwybodaeth bersonol a ddefnyddir yn y fath ymarferion yn gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch twyllodrus, ac mae'n hanfodol bod archwilwyr a'r cyrff sy'n cymryd rhan mewn ymarferion paru data yn cymryd eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Diogelu Data o ddifrif.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Y Comisiwn Archwilio a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon wedi cynnwys Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wrth ddatblygu eu Codau Ymarfer Paru Data. Maent wedi gwneud gwaith i egluro'r fframwaith o reolau ac ymarferion a luniwyd i ddiogelu gwybodaeth bersonol yn yr ymarferion paru data hyn. Yn benodol, rydym yn croesawu eu hymdrechion i egluro'r sail gyfreithlon ar gyfer yr ymarferion hyn, pwysigrwydd tryloywder a'r angen am ddiogelwch effeithiol wrth i'r ymarferion gael eu hehangu. Mae hyn yn helpu i fynd i'r afael â phryderon cyfreithlon sy'n ymwneud â chynnal ymarferion a allai fod yn ymwthiol mewn modd cymesur, cyfreithlon a diogel. Rydym hefyd wedi cychwyn archwilio'r gwaith o brosesu data a gynhelir fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol a byddwn yn parhau i ddatblygu hyn yn ystod y flwyddyn.

Nid yw pwysigrwydd diogelu gwybodaeth bersonol erioed wedi bod mor amlwg ac mae'n hanfodol y dilynir y Cod hwn er mwyn iddo fod yn wirioneddol effeithiol. Dylai cydymffurfio â'r Cod hwn helpu i nodi'r unigolion hynny sy'n ymwneud â gweithgarwch twyllodrus yn barhaus ac, yn arbennig, dylai gynnal a diogelu hawliau'r mwyafrif nad ydynt yn gwneud hynny.



Richard Thomas
Y Comisiynydd Gwybodaeth

# Rhan 1 – Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn mynd ati i baru data er mwyn atal a chanfod twyll, ac mae wedi paratoi'r Cod hwn i gynorthwyo pawb sy'n cymryd rhan mewn gwaith o'r fath

**1.1** Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n archwilio ac ardystio cyfrifon Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad Cenedlaethol) ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw. Mae hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru ac yn cynnal ac yn hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol.

## Mae a wnelo paru data â chymharu gwybodaeth, megis y gyflogres, oddi wrth amrywiaeth o ffynonellau er mwyn nodi achosion o dwyll, ac felly wella gwerth am arian

**1.2** Mae'n bwysig bod gan gyrff cyhoeddus reolaethau digonol ar waith i atal a chanfod achosion o dwyll a gwallau. Mae twyll o fewn llywodraeth leol, y gwasanaeth iechyd a chyrff cyhoeddus eraill yn peri pryder mawr i'r cyrff hynny, yn ogystal â'r Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr llywodraeth leol a benodir ganddo.

**1.3** Mae ymarferion paru data, megis y Fenter Twyll Genedlaethol a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol ar y cyd â'r Comisiwn Archwilio (ac yn y dyfodol gyrff archwilio eraill yn y DU), yn helpu cyrff a archwilir i atal a chanfod twyll a gwallau, gan felly sicrhau gwell gwerth am arian cyhoeddus. Mae'r ymarferion hefyd yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol a'i archwilwyr i asesu'r trefniadau y mae cyrff a archwilir wedi'u gwneud i ymdrin â thwyll, a all helpu'r cyrff i wneud gwelliannau pellach.

**1.4** Mae cyfateb data yn golygu cymharu setiau o ddata, fel y gyflogres neu gofnodion budd-daliadau un corff yn erbyn cofnodion eraill sydd gan yr un corff, neu gorff arall. Mae hyn yn galluogi i hawliadau a thaliadau twyllodrus i gael eu nodi. Os caiff data ei baru, gallai ddynodi bod anghysondeb y mae angen ymchwilio iddo ymhellach; nid yw o reidrwydd yn dystiolaeth o dwyll. Os na chaiff data ei baru, ni fydd gan y pwerau paru data effaith sylweddol ar y rhai dan sylw. Yn y Fenter Twyll Genedlaethol, er enghraifft, mae cyrff sy'n cymryd rhan wedi cael adroddiad ar y data a gafodd eu paru y dylent ymchwilio iddynt, er mwyn canfod achosion o dwyll a gwallau, a chymryd camau i unioni'r sefyllfa.

**1.5** Data personol yw'r data a gaiff eu cymharu fel arfer. Dim ond yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 y gellir cael gafael ar ddata personol a'u prosesu.

## Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn mynd ati i baru data yn unol â fframwaith statudol, ac mae'r Cod hwn yn ofyniad statudol

**1.6** O 2008, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnal ymarferion paru data o dan ei bwerau statudol newydd a gynhwysir yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Troseddu Difrifol 2007 (nodir adrannau allweddol yn Atodiad 3). Cynhaliwyd ymarferion blaenorol o dan swyddogaethau archwilio ac astudio gwerth am arian yn Neddf 2004 a Deddf Llywodraeth Cymru 1998, ac o dan bwerau'r archwilydd penodedig. O dan y ddeddfwriaeth newydd:

- **a** caiff yr Archwilydd Cyffredinol gynnal ymarferion paru data er mwyn helpu i atal a chanfod twyll, fel rhan o archwiliad neu fel arall;
- **b** caiff yr Archwilydd Cyffredinol ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraeth leol a'r GIG yng Nghymru ddarparu data ar gyfer ymarferion paru data;
- **c** caiff cyrff eraill gymryd rhan yn ei ymarferion paru data yn wirfoddol pan fo'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod hynny'n briodol. Pan wneir hynny, noda'r statud na thorrir cyfrinachedd nac ychwaith, gydag eithriadau penodol (gweler adran 64C o Ddeddf 2004 yn Atodiad 3) unrhyw gyfyngiad arall o ran darparu'r data i'r Archwilydd Cyffredinol;
- **d** mae gofynion Deddf Diogelu Data 1998 yn parhau i fod yn gymwys;
- **e** caiff yr Archwilydd Cyffredinol ddatgelu canlyniadau ymarferion paru data i gyrff sydd wedi darparu'r data ac i archwilwyr a benodir ganddo;
- **f** caiff yr Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi adroddiad cryno;
- **g** caiff yr Archwilydd Cyffredinol ddatgelu'r data a ddarparwyd ar gyfer ymarferion paru data a chanlyniadau'r ymarferion hynny i'r Comisiwn Archwilio, Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon, Archwilydd Cyffredinol yr Alban, Comisiwn Cyfrifon yr Alban ac Audit Scotland, er mwyn atal a chanfod twyll;
- **h** mae achos anghyfiawn o ddatgelu data a ddarparwyd ar gyfer ymarferion paru data yn drosedd;
- **i** caiff yr Archwilydd Cyffredinol godi tâl ar unrhyw gorff sy'n cymryd rhan mewn ymarfer paru data a rhaid iddo bennu graddfa ffioedd ar gyfer cyrff y mae'n ofynnol iddynt gymryd rhan;
- **j** rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol baratoi Cod Ymarfer ar ôl ymgynghori â'r cyrff y mae'n ofynnol iddynt gymryd rhan (llywodraeth leol a'r GIG), y Comisiynydd Gwybodaeth a chyrff eraill sy'n briodol ym marn yr Archwilydd Cyffredinol. Rhaid iddo hefyd gyflwyno copi o'r Cod ac unrhyw ddiwygiadau a wneir iddo gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, a chyhoeddi'r Cod. Rhaid i bob corff sy'n cynnal ei ymarferion paru data neu'n cymryd rhan ynddynt ystyried y Cod, gan gynnwys yr Archwilydd Cyffredinol ei hun.

**1.7** Caiff yr Archwilydd Cyffredinol gynnal ymarferion paru data ei hun, neu drefnu iddynt gael eu cynnal ar ei ran. Yn ymarferol, caiff y rhan fwyaf o ymarferion paru data'r Archwilydd Cyffredinol eu cynnal ar ffurf cydymarferion ag asiantaethau archwilio eraill yn y DU, megis y Fenter Twyll Genedlaethol. Yn hyn o beth, mae'r Comisiwn Archwilio wedi cyflawni'r holl agweddau allweddol ar yr ymarfer hwn i'r Archwilydd Cyffredinol[1] ac archwilwyr eraill yn y DU, gan gynnwys casglu a phrosesu data.

**1.8** Fel y nodwyd yn 1.6(j) uchod, mae'r Cod hwn yn ofyniad statudol. Fe'i paratowyd yn dilyn proses ymgynghori statudol. Bydd yn rheoli holl ymarferion paru data'r Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol at ddibenion atal a chanfod twyll hyd nes y caiff testun ei gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol sy'n ei ddisodli. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu adolygu a diweddaru'r Cod o bryd i'w gilydd yn sgîl newidiadau i'r gyfraith ac er mwyn adlewyrchu sylwadau a phrofiadau sy'n deillio o bob ymarfer paru data.

**1.9** Rhaid i unrhyw unigolyn neu gorff sy'n cynnal neu'n cymryd rhan yn un o ymarferion paru data'r Archwilydd Cyffredinol, yn unol â'r gyfraith, ystyried y darpariaethau yn y Cod hwn. Dylent hefyd ystyried unrhyw godau a pholisïau perthnasol eraill o ran rhannu gwybodaeth. Dylid anfon unrhyw gwestiynau am y Cod hwn neu ymarferion paru data penodol at Cydgysylltydd y Fenter Twyll Genedlaethol, Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ (nfi@wao.gov.uk). Dylid cyfeirio cwynion ynghylch cyrff sy'n cymryd rhan yn ymarferion paru data'r Archwilydd Cyffredinol at y cyrff hynny. Dylid cyfeirio cwynion ynghylch rôl yr Archwilydd Cyffredinol, neu rôl ei staff neu archwilwyr penodedig, wrth gynnal ymarferion paru data at Reolwr Cwynion Swyddfa Archwilio Cymru fel y gellir ymdrin â hwy yn ôl gweithdrefn gwyno Swyddfa Archwilio Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt yn Atodiad 4.

## Diben y Cod yw helpu pob corff sy'n ymwneud â pharu data i gydymffurfio â'r gyfraith ac arfer da, a hysbysu unigolion o'r broses paru data

**1.10** Diben y Cod hwn yw helpu i sicrhau bod yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff, yr archwilwyr a benodir gan yr Archwilydd Cyffredinol a phob corff sy'n ymwneud ag ymarferion paru data yn cydymffurfio â'r gyfraith, yn enwedig darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998. Bwriedir iddo hefyd hyrwyddo arfer da ym maes paru data a hysbysu unigolion o'r rheswm dros baru eu data a chan bwy y gwneir hynny, y safonau sy'n gymwys ac ymhle i gael rhagor o wybodaeth. Diffinnir termau penodol (a nodir drwy briflythrennau) a ddefnyddir yn y Cod hwn yn Atodiad 1.

**1.11** Fodd bynnag, nid yw'r Cod hwn yn hollol gymwys i'r camau manwl a gymerir gan Gorff sy'n Cymryd Rhan i ymchwilio i ddata a gaiff eu paru. Mater i Gyrff sy'n Cymryd Rhan yw ymchwilio i ddata a gaiff eu paru yn unol â'u harferion arferol ar gyfer ymchwilio i dwyll a gwallau.

1 Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol y pŵer i ddefnyddio'r cyfryw wasanaethau ag sy'n angenrheidiol yn ei farn ef er mwyn helpu i gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol o dan baragraff 7 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Hefyd mae gan yr Archwilydd Cyffredinol y pŵer o dan baragraff 21 o Ddeddf 2006 i wneud trefniadau i gydweithio â chyrff cyhoeddus eraill er mwyn hwyluso'r broses o gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a swyddogaethau cyrff eraill.

## Gall fod yn ofynnol i gyrff llywodraeth leol a chyrff y GIG ddarparu data personol am eu cyflogeion, aelodau a defnyddwyr gwasanaethau at ddibenion paru data, a gall cyrff eraill gymryd rhan hefyd

1.12 O dan y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Troseddu Difrifol 2007), gall yr Archwilydd Cyffredinol ei gwneud yn ofynnol i bob corff llywodraeth leol a chorff y GIG yng Nghymru ddarparu data personol sy'n ymwneud â'i gyflogeion, aelodau a defnyddwyr gwasanaethau ar gyfer ymarferion paru data. Yn y Cod hwn cyfeirir at y cyrff y mae'n ofynnol iddynt gymryd rhan yn y ffordd hon fel Cyrff Gorfodol. Rhaid i Gyrff Gorfodol ddarparu data ar gyfer ymarferion paru data fel sy'n ofynnol gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 64B o Ddeddf 2004. Mae methu â darparu data fel sy'n ofynnol heb esgus rhesymol yn drosedd (adran 64B(3)—gweler Atodiad 3).

1.13 Caiff unrhyw gorff neu unigolyn arall ddarparu data o'i wirfodd ar gyfer ymarferion paru data os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn penderfynu bod defnyddio ei ddata yn briodol. Cyfeirir at y rhain fel Cyrff sy'n Cymryd Rhan yn Wirfoddol yn y Cod hwn. Pan fydd Corff sy'n Cymryd Rhan yn Wirfoddol yn rhoi data i'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer ymarferion paru data, noda'r gyfraith (adran 64C o Ddeddf 2004) nad yw hyn yn gyfystyr â thorri cyfrinachedd, nac ychwaith yn torri cyfyngiadau cyfreithiol eraill yn gyffredinol. Fodd bynnag ni chaiff cyrff rannu Data Cleifion o'u gwirfodd, ac felly dim ond os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn gofyn am hynny gan Gorff Gorfodol y gellir eu defnyddio mewn ymarferion paru data.

1.14 P'un a yw Corff sy'n Cymryd Rhan yn darparu data yn orfodol neu'n wirfoddol, mae'n rhaid iddo ddarparu'r data yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998 o hyd. Yn ymarferol, golyga hyn fod achos o ddatgelu data naill ai'n unol â'r egwyddorion diogelu data, neu fod eithriad perthnasol yn y Ddeddf Diogelu Data wedi'i roi ar waith. Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff data eu paru yn unol â'r egwyddorion diogelu data heb ddibynnu ar eithriadau yn y Ddeddf Diogelu Data. Y prif eithriadau mewn perthynas â chael gafael ar ddata a darparu data yw adrannau 34 a 35 o'r Ddeddf Diogelu Data. Mae angen i'r rhain gael eu hystyried yng nghyd-destun pob ymarfer paru data unigol. Ceir detholiadau perthnasol o'r Ddeddf Diogelu Data, gan gynnwys egwyddorion diogelu data, yn Atodiad 3.

## Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i bob Corff sy'n Cymryd Rhan enwebu uwch aelodau priodol o staff i fod yn gyfrifol am ymarferion paru data ac mae'n darparu llawlyfrau i'w cynorthwyo

1.15 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i Gyfarwyddwr Cyllid neu swyddog cyfatebol pob Corff sy'n Cymryd Rhan weithredu fel y Swyddog Cyfrifol ac enwebu uwch aelod priodol o staff i weithredu fel y Prif Gyswllt ar gyfer pob ymarfer paru data.Dylai'r Swyddog Cyfrifol hefyd enwebu staff priodol i fod yn gyfrifol am ymdrin â data a'r ymchwiliad dilynol i ddata a gaiff eu paru. Dylai'r Swyddog Cyfrifol sicrhau bod y staff a enwebir yn gymwys ac wedi'u hyfforddi i gyflawni eu rôl.

**1.16** Dylai'r Prif Gyswllt weithio gyda Swyddog Diogelu Data'r Corff sy'n Cymryd Rhan. Dylai'r Swyddog Diogelu Data fod yn rhan o'r trefniadau ar gyfer ymdrin â data, hyfforddiant a darparu Hysbysiadau Prosesu Teg ar gam cynnar.

**1.17** Cydgysylltydd y Fenter Twyll Genedlaethol yw'r prif bwynt cyswllt yn Swyddfa Archwilio Cymru o ran ymarferion paru data'r Archwilydd Cyffredinol (nfi@wao.gov.uk). Ceir manylion cyswllt llawn yn Atodiad 4.

**1.18** Ar gyfer pob ymarfer paru data, bydd yr Archwilydd Cyffredinol (neu ei asiant) yn sicrhau bod canllawiau ar gael i bob Corff sy'n Cymryd Rhan. Bydd yn nodi'r cyfrifoldebau a'r gofynion manwl ar gyfer cymryd rhan. Mae'r canllawiau diweddaraf i'w gweld yn http://www.wao.gov.uk/whatwedo/1252.asp. Bydd y canllawiau'n cynnwys:

- **a** rhestr o gyfrifoldebau'r swyddogion a enwebwyd yn y Corff sy'n Cymryd Rhan;
- **b** manylebau ar gyfer pob set o ddata (yn rhestru'r data gofynnol i'w darparu gan y Corff sy'n Cymryd Rhan er mwyn paru data a sicrhau canlyniadau o ansawdd digonol);
- **c** manylion unrhyw ofynion pellach a ffurflenni'n ymwneud â'r data i'w darparu;
- **d** amserlen ar gyfer prosesu data;
- **e** ffurflen gydymffurfio diogelu data;
- **f** gwybodaeth am sut i ddehongli parau, ac am gydweithredu rhwng cyrff sy'n cymryd rhan.

## Dim ond pan fo risg sylweddol o dwyll y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn paru data

**1.19** Dim ond pan fydd tystiolaeth resymol y bydd yn debygol o ganfod twyll o ganlyniad i hynny y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn dewis setiau o ddata i'w paru. Bydd hyn yn ystyriaeth allweddol pan fydd yr Archwilydd Cyffredinol yn penderfynu a yw'n briodol derbyn data gan Gorff sy'n Cymryd Rhan yn Wirfoddol, neu i ofyn am ddata gan Gorff Gorfodol. Gallai tystiolaeth godi o ymarferion paru data blaenorol, o ymarferion peilot, o Gyrff sy'n Cymryd Rhan neu o ffynonellau gwybodaeth dibynadwy eraill, megis archwilwyr a benodir gan yr Archwilydd Cyffredinol.

**1.20** Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â meysydd paru data newydd ar ffurf cynllun peilot i brofi eu heffeithiolrwydd o ran atal neu ganfod twyll. Dim ond pan fydd cynlluniau peilot yn paru data sy'n dangos lefel sylweddol o dwyll posibl y cânt eu cyflwyno'n genedlaethol. Gall lefel sylweddol fod yn gyfystyr ag ychydig o achosion difrifol o dwyll neu nifer fwy o rai llai. Mae telerau'r Cod hwn yn gwbl gymwys i'r ymarferion peilot. Rhaid i ddata peilot gael eu darparu yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adolygu canlyniadau pob ymarfer paru data llawn er mwyn mireinio'r ffordd y mae'n dewis data ar gyfer ymarferion yn y dyfodol.

**1.21** Bydd y data sy'n ofynnol gan Gyrff sy'n Cymryd Rhan yn cyfateb i'r hyn sy'n gwbl angenrheidiol i gynnal yr ymarfer paru, er mwyn galluogi unigolion i gael eu nodi'n gywir ac i gyflwyno canlyniadau o ansawdd digonol. Caiff hyn ei nodi ar ffurf manylion data ar

gyfer pob set o ddata yng nghanllaw'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer pob ymarfer. Yn gyffredinol, caiff unrhyw ddiwygiadau i fanylion y data eu cyhoeddi o leiaf chwe mis cyn y darperir y setiau data ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn http://www.wao.gov.uk/whatwedo/1252.asp. Bydd Cydgysylltydd Menter Twyll Genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw Cysylltiadau Allweddol Cyrff sy'n Cymryd Rhan at ddiwygiadau o'r fath drwy e-bost. Gwneir hyn i sicrhau bod Cyrff sy'n Cymryd Rhan yn cael eu hysbysu o unrhyw newidiadau ar gam cynnar er mwyn iddynt allu paratoi'n ddigonol.

**1.22** Bydd y prosesau dethol yn lleihau'r risg y caiff cryn dipyn o ddata personol eu prosesu heb unrhyw risg sylweddol o dwyll. Fodd bynnag, mae'n angenrheidiol prosesu data personol unigolion nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad â thwyll er mwyn canfod twyll. Ond oni cheir anghysondebau sy'n arwain at ymchwiliad dilynol, ni fydd y gwaith prosesu yn effeithio ar bobl y caiff eu data eu paru mewn unrhyw ffordd berthnasol.

# Rhan 2 – Tegwch a thryloywder: Rhaid i Gyrff sy'n Cymryd Rhan hysbysu pobl o'r ffaith bod eu data yn cael eu paru, oni fydd eithriad yn gymwys

**2.1** Caiff data eu prosesu gan yr Archwilydd Cyffredinol mewn ymarfer paru data yn unol ag awdurdod statudol. O dan Deddf Diogelu Data 1998, nid oes angen caniatâd yr unigolion dan sylw. Nodir darpariaethau perthnasol y Ddeddf Diogelu Data yn Atodiad 3.

**2.2** Dylai Cyrff sy'n Cymryd Rhan, yn rhai Gorfodol ac yn rhai Gwirfoddol, hysbysu unigolion y caiff eu data eu prosesu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diogelu Data 1998. Oni fydd eithriad yn gymwys, er mwyn i'r gwaith o brosesu data fod yn deg, rhaid i reolwyr data hysbysu unigolion y caiff eu data eu prosesu o'r canlynol:

- **a** pwy yw'r Rheolwr Data;
- **b** diben neu ddibenion prosesu'r data; ac
- **c** unrhyw wybodaeth arall sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud y gwaith prosesu yn deg.

**2.3** Caiff y wybodaeth hon ei darparu'n ysgrifenedig gan ddefnyddio hysbysiadau prosesu teg. Bydd y rhain yn galluogi pobl i wybod bod eu data yn cael eu defnyddio i atal neu ganfod twyll ac i gymryd camau priodol os credant fod y defnydd a wneir ohonynt yn anghyfiawn neu'n anghyfreithlon yn eu hachos penodol hwy.

**2.4** I'r graddau y bo'n ymarferol, dylai Cyrff sy'n Cymryd Rhan sicrhau bod hysbysiadau yn cael eu darparu, neu o leiaf eu bod ar gael yn hawdd, i'r unigolion y maent yn rhannu gwybodaeth amdanynt. Dylai'r hysbysiad esbonio'n glir y gall eu data gael eu datgelu er mwyn atal a chanfod twyll. Dylent hefyd nodi y caiff y data eu rhoi i'r Archwilydd Cyffredinol at y diben hwn. Dylai'r hysbysiad hefyd gynnwys manylion am sut y gall unigolion gael rhagor o wybodaeth am y gwaith prosesu.

**2.5** Dylai'r broses o gyfathrebu ag unigolion y caiff eu data eu paru fod yn glir, yn amlwg ac yn amserol. Mae'n arfer da cyflwyno hysbysiadau atgoffa cyn pob cyfres o ymarferion paru data.

**2.6** Wrth roi data i'r Archwilydd Cyffredinol, neu ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol, i'r Comisiwn Archwilio fel asiant yr Archwilydd Cyffredinol, dylai'r Corff sy'n Cymryd Rhan gyflwyno datganiad yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â gofynion yr hysbysiad prosesu teg. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cadarnhau ei fod wedi bodloni'r gofynion a, lle y bo angen, yn cytuno ar y camau sy'n angenrheidiol er mwyn i'r Corff sy'n Cymryd Rhan gydymffurfio. Bydd hefyd yn gofyn am fewnbwn y Comisiynydd Gwybodaeth fel rhan o'r broses hon.

## Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn argymell hysbysiadau prosesu teg haenog

**2.7** Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn argymell llunio hysbysiadau prosesu teg ar ffurf haenau. Fel arfer mae tair haen: hysbysiad cryno, testun cywasgedig a thestun llawn. Gyda'i gilydd, mae'r tair haen yn creu'r hysbysiad prosesu teg.

2.8 Dylai'r hysbysiad cryno ddarparu'r cynnwys angenrheidiol gofynnol a dylai gael ei roi i'r unigolion y caiff eu data eu paru. Pan fo'n ymarferol, dylai gyfeirio at ffynonellau gwybodaeth manylach, er enghraifft, drwy ddarparu gwe-gysylltiadau i'r ail a'r drydedd haen, neu fanylion cyswllt ar gyfer y Prif Gyswllt neu'r Swyddog Gwybodaeth. Dylai Cyrff sy'n Cymryd Rhan nodi'n glir ymhle y gall unigolion gael rhagor o wybodaeth am sut, pam a chan bwy y caiff eu data eu prosesu.

2.9 Yn achos budd-daliadau, trwyddedau a cheisiadau am wasanaethau, er enghraifft, dylai'r hysbysiad cryno gael ei gynnwys ar y ffurflen gais a ddefnyddir i gasglu'r data yn y lle cyntaf. Mewn achosion eraill, megis pensiynwyr galwedigaethol, pan fo Cyrff sy'n Cymryd Rhan fel arfer yn cyfathrebu â hwy unwaith y flwyddyn drwy gylchlythyr, er enghraifft, dylai hysbysiadau cryno gael eu cynnwys pan wneir hyn cyn pob ymarfer. Bydd hyn yn osgoi anfon gwybodaeth atynt ar wahân.

2.10 Dylai Cyrff sy'n Cymryd Rhan hysbysu eu cyflogeion pan gânt eu recriwtio, er enghraifft drwy gynnwys hysbysiad cryno gyda llythyrau penodi. Dylent hefyd ddarparu hysbysiad cryno cyn pob ymarfer, er enghraifft, drwy ei gynnwys gyda'u slipiau cyflog.

2.11 Dylai'r testun cywasgedig roi crynodeb o ymarferion paru data'r Archwilydd Cyffredinol, a dylai fod ar gael ar wefan y Corff sy'n Cymryd Rhan ac ar ffurf copi caled ar gais. Dylai'r haen hon ddarparu cyswllt i'r testun llawn manylach.

2.12 Bydd y testun llawn ar gael ar wefan yr Archwilydd Cyffredinol a bydd yn cynnwys esboniad o'r sail gyfreithiol ar gyfer ei ymarferion paru data a disgrifiad manylach o'r ffordd y mae'r fenter yn gweithio.

2.13 Er y dylai Cyrff sy'n Cymryd Rhan benderfynu ar gynnwys hysbysiadau prosesu teg a sut y'u cyflwynir eu hunain, ceir enghreifftiau arfer da o sut i weithredu gan ddefnyddio tair haen yn Atodiad 2. Bydd Cydgysylltydd Menter Twyll Genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn tynnu sylw Cysylltiadau Allweddol Cyrff sy'n Cymryd Rhan ar gyfer pob ymarfer at yr enghreifftiau hyn, ac unrhyw ddiwygiadau iddynt, drwy e-bost. Bydd hysbysiadau o'r fath yn atal twyll yn ogystal â hysbysu ymgeiswyr o'r defnydd o ddata mewn ymarferion paru data. Os bydd Cyrff sy'n Cymryd rhan neu'r Archwilydd Cyffredinol yn methu â dilyn arfer da, gallai'r Comisiynydd Gwybodaeth gynnal ymchwiliad a chymryd camau gorfodi. Mae manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth ar gael yn 7.4.

2.14 Manteision defnyddio haenau yw rhoi lefelau priodol o wybodaeth prosesu deg i gynulleidfaoedd gwahanol, yn dibynnu ar eu hanghenion gwybodaeth. Gall unigolion sydd am gael esboniad cymharol fyr ei gael mewn hysbysiad cryno, a gall gwybodaeth fwy cynhwysfawr fod ar gael i eraill.

## Dylai Cyrff sy'n Cymryd Rhan ddarparu hysbysiadau prosesu teg cryno wrth gasglu data personol newydd neu hysbysiadau ôl-weithredol pan fo'r cyfle hwn wedi mynd heibio

2.15 Pan fo'n ymarferol, dylai Cyrff sy'n Cymryd Rhan ddarparu hysbysiadau prosesu teg cryno pan gesglir data personol. Dylai Cyrff sy'n Cymryd Rhan, beth bynnag, ddarparu hysbysiadau o'r fath cyn datgelu'r data i'r Archwilydd Cyffredinol neu ei asiantau oni fydd yn anymarferol gwneud hynny.

2.16 Weithiau ni fydd yn ymarferol darparu hysbysiad prosesu teg cryno pan gesglir y data yn wreiddiol. Mewn achosion o'r fath, dylai Cyrff sy'n Cymryd Rhan ddarparu hysbysiadau prosesu teg cryno ôl-weithredol ar y cam rhesymol cynharaf, a chyn datgelu data i'r Archwilydd Cyffredinol neu ei asiant, oni fydd yn anymarferol gwneud hynny.

## Dylai Cyrff sy'n Cymryd Rhan fod yn ofalus wrth ymdrin â data sy'n ymwneud â phobl sydd wedi marw

2.17 Mae rhywfaint o'r data a ddefnyddir ar gyfer ymarferion paru data yn ymwneud â phobl sydd wedi marw. Er na all gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn sydd wedi marw gael ei hystyried yn ddata personol y sawl sydd wedi marw o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, gall rheolau cyfrinachedd cyfraith gwlad atal ei datgelu mewn rhai amgylchiadau. Ymhob achos, er mwyn osgoi unrhyw ofid neu niwed diangen, dylid ymdrin â data sy'n ymwneud â phobl sydd wedi marw mewn ffordd ofalus a sensitif drwy'r ymarfer, ond yn arbennig wrth ymchwilio i ddata sydd wedi'u paru.

## Rhaid i Gyrff sy'n Cymryd Rhan gofrestru ar gyfer dibenion prosesu atal a chanfod twyll gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

2.18 Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cynnal cofrestr gyhoeddus o reolwyr data sy'n prosesu data a gwmpesir gan Ddeddf Diogelu Data 1998. Mae rheolwyr data yn pennu diben prosesu data personol a'r modd y gwneir hynny. Mae pob cofnod yn y gofrestr yn cynnwys enw a chyfeiriad y rheolwr data, dibenion prosesu data a gwybodaeth benodol am bob diben. Mae'r rheolwyr data hynny y mae'n ofynnol iddynt hysbysu, ond nad ydynt yn gwneud hynny, yn cyflawni trosedd. Mae gan bob Corff Gorfodol a Gwirfoddol sy'n Cymryd Rhan gyfrifoldeb i sicrhau bod eu hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cwmpasu'r Archwilydd Cyffredinol a'r archwilwyr fel derbynyddion yn erbyn y dibenion priodol: atal a chanfod twyll.

2.19 Mae Llawlyfr Hysbysu ar gael gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n nodi sut i gwblhau'r Ffurflen Hysbysu ofynnol. Mae templedi hysbysu ar gael gan y Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer awdurdodau lleol, cyrff y GIG a chyrff cyhoeddus eraill.

## Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn darparu gwybodaeth am ei ymarferion paru data

2.20 I ategu'r wybodaeth a ddarperir drwy hysbysiadau prosesu teg, bydd yr Archwilydd Cyffredinol o bryd i'w gilydd yn cyhoeddi'r ffaith ei fod yn cynnal ymarferion paru data a'r rhesymau drostynt, megis pryd mae ymarferion newydd yn cychwyn. Bydd hyn yn cynnwys darparu taflenni cryno i'w dosbarthu a fersiynau clywedol cyfatebol.

# Rhan 3 – Safonau Gwybodaeth: Dylai Cyrff sy'n Cymryd Rhan sicrhau bod y data personol a ddarperir ganddynt o ansawdd digonol

**3.1** Dylai Cyrff sy'n Cymryd Rhan sicrhau bod y data a roddir ganddynt i'r Archwilydd Cyffredinol a'i asiantau o ansawdd da o ran cywirdeb a chyflawnrwydd. Bydd prosesu data anghywir yn golygu bod y Corff sy'n Cymryd Rhan yn torri'r Ddeddf Diogelu Data. Felly, cyn darparu data personol i'w paru, dylai cyrff sicrhau eu bod mor gywir a chyfredol â phosibl. Dylai gwallau a nodwyd o ymarferion paru data blaenorol gael eu hunioni, a dylid cymryd camau i fynd i'r afael â materion sy'n codi mewn adroddiadau ar ansawdd data a ddarparwyd yn sgîl yr ymarferion hynny.

**3.2** Dylai Swyddog Cyfrifol y Corff sy'n Cymryd Rhan sicrhau bod pob cais gan bobl y caiff eu data eu paru i'w data gael eu diweddaru neu eu cywiro wedi'i brosesu. Pan fydd Cyrff sy'n Cymryd Rhan yn canfod bod unrhyw geisiadau o'r fath heb eu prosesu, dylent nodi'r ceisiadau'n ofalus a sicrhau eu bod yn cael eu hystyried wrth gyfeirio at adroddiadau ar baru data.

# Rhan 4 – Diogelwch: Rhaid i Gyrff sy'n Cymryd Rhan a'r Archwilydd Cyffredinol ddiogelu'r data personol a'r wybodaeth gysylltiedig dan sylw

4.1 Dylai'r trefniadau diogelwch ar gyfer y modd y mae pawb sy'n cymryd rhan mewn ymarferion paru data yn ymdrin â data a'u cadw, gan gynnwys yr Archwilydd Cyffredinol ac unrhyw gwmni neu gorff sy'n cynnal gwaith paru data fel ei asiant, sicrhau'r canlynol:

- a bod cyfrifoldeb penodol am ddiogelwch data wedi'i ddyrannu i un neu fwy o reolwyr;
- b mae mesurau diogelwch yn rhoi cyfrif priodol am yr amgylchedd ffisegol y cedwir data ynddo, gan gynnwys diogelwch y safle a'r cyfleusterau storio;
- c mae rheolaethau ffisegol a rhesymegol ar waith i gyfyngu ar yr hawl i weld data electronig fel mai dim ond y rhai y mae angen iddynt eu gweld at bwrpasau'r ymarfer paru data sy'n gallu gwneud hynny;
- d mae pob aelod o staff sy'n cael gweld data yn cael hyfforddiant digonol i alluogi staff i werthfawrogi pam bod angen iddynt ddiogelu'r data a sut i wneud hynny;
- e mae dulliau cadarn ar waith i gofnodi achosion o weld, defnyddio a throsglwyddo data; a
- f phan fydd tordiogelwch, neu os amheuir hynny, dylai defnyddwyr awdurdodedig gael cyfrineiriau newydd neu dylid gofyn iddynt newid eu cyfrineiriau cyn gynted â phosibl. Dylai'r corff cyfrifol hefyd ddilyn canllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth ar reoli achosion o dordiogelwch. Dylai cysylltiadau allweddol Cyrff sy'n Cymryd Rhan a Chydgysylltydd Menter Twyll Genedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru (nfi@wao.gov.uk) hysbysu ei gilydd ar unwaith mewn achos o dordiogelwch a gadarnhawyd.

4.2 Dylai pawb sy'n ymdrin â data fel rhan o'r ymarfer paru data fod yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau i ddiogelu a sicrhau cyfrinachedd data o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, Deddf 2004 a'r Cod hwn. Dylent gael hyfforddiant priodol fel y bo angen. Dylai staff o'r fath fod yn destun gweithdrefnau awdurdodi llym o ran yr hawl i weld data. Dylai achos o dorri gweithdrefnau awdurdodi arwain at gamau disgyblu priodol.

4.3 Os bydd yr Archwilydd Cyffredinol neu ei asiantau yn sefydlu gwefannau i drosglwyddo data neu ganlyniadau paru data, caiff y rhain eu diogelu gan gyfrinair a'u hamgryptio i safonau SSL 128 bit. Mae hyn yn gymwys i wefan bresennol y Fenter Twyll Genedlaethol a sefydlwyd gan y Comisiwn Archwilio.

4.4 Bydd unrhyw gorff neu gwmni sy'n prosesu data fel asiantau'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud hynny o dan gytundeb neu gontract ysgrifenedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i safonau diogelwch technegol a threfniadol yr asiant gyrraedd ISO 27001/02. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cael sicrwydd bod y safonau hyn yn cael eu cyrraedd o bryd i'w gilydd.

4.5 Dylai Cyrff sy'n Cymryd Rhan wneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod y broses o roi data i'r Archwilydd Cyffredinol neu ei asiantau yn un ddiogel. Ar gyfer y Fenter Twyll

Genedlaethol, dim ond drwy wefan ddiogel y Fenter y dylid anfon data i'r Comisiwn Archwilio. Ar gyfer ymarferion eraill, dim ond yn bersonol y dylid rhoi data i staff Swyddfa Archwilio Cymru a fydd yn sicrhau eu bod yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel, gan gynnwys amgryptio i safonau perthnasol. Dylai Cyrff sy'n Cymryd Rhan ac archwilwyr penodedig sicrhau diogelwch data a drosglwyddir o fewn eu sefydliadau eu hunain.

## Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn sicrhau bod ymarferion paru data yn cael eu cynnal mewn ffordd deg ac mai dim ond er mwyn helpu i atal a chanfod twyll y gwneir hynny

4.6 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn sicrhau bod ymarferion paru data yn cael eu cynnal mewn ffordd deg ac mai er mwyn helpu i atal a chanfod twyll y gwneir hynny. Dim ond technegau a all ddangos twyll posibl mewn modd rhesymol a ddefnyddir gan yr Archwilydd Cyffredinol neu ei asiantau mewn ymarferion paru data. Cânt eu mireinio yn sgîl profiad ymarferol, ar ôl nodi unrhyw wersi o ganlyniad i adolygu canlyniadau ymarferion blaenorol.

4.7 Caiff yr holl ddata a drosglwyddir ac a gaiff eu storio'n electronig gan yr Archwilydd Cyffredinol neu ei asiantau eu cadw ar system gyfrifiadurol ddiogel a ddiogelir gan gyfrinair ac a gynhelir mewn amgylchedd diogel. Bydd pob aelod o staff yr Archwilydd Cyffredinol a'i asiantau sydd yn gallu gweld data personol sy'n cymryd rhan mewn ymarferion paru data yn ddarostyngedig i weithdrefnau clirio diogelwch.

4.8 Caiff yr holl ddata a ddarperir ar gyfer ymarferion paru data eu cadw wrth gefn gan yr Archwilydd Cyffredinol neu ei asiantau ar adegau priodol, yn dibynnu ar raddfa a hyd yr ymarfer, ond heb fod yn amlach nag sy'n rhesymol angenrheidiol. Bydd y rheolaethau sy'n berthnasol i ddiogelu, dinistrio a gweld y data gwreiddiol hefyd yn berthnasol i ddata wrth gefn.

## Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn sicrhau bod allbwn paru data yn cael ei ddosbarthu'n ddiogel

4.9 Caiff holl ganlyniadau ymarferion paru data, megis data a gaiff eu paru a gwybodaeth berthnasol arall sy'n deillio o waith prosesu, eu rhoi i Gyrff sy'n Cymryd Rhan fel y gallant eu gweld ar y we mewn ffordd ddiogel neu drwy eu storio'n ddiogel a'u hamgryptio gan staff Swyddfa Archwilio Cymru.

4.10 Dylai'r Swyddog Cyfrifol sicrhau bod canlyniadau ymarfer paru data ond yn cael eu datgelu i staff a enwir ar gyfer pob math o ganlyniad. Yn achos y Fenter Twyll Genedlaethol, mae gwefan ddiogel y Fenter wedi'i dylunio at y diben hwnnw.

4.11 Dylai'r holl ganlyniadau o ymarferion paru data a gedwir gan y Corff sy'n Cymryd Rhan gael eu diogelu gan gyfrinair ar system gyfrifiadurol a ddiogelir gan gyfrinair. Dylai unrhyw ganlyniadau a argraffwyd gael eu cadw dan glo mewn amgylchedd diogel a dim ond unigolion awdurdodedig wedi'u henwi a ddylai fod yn gallu eu gweld.

## Caiff y broses o ddatgelu data a ddefnyddir mewn ymarferion paru data ei rheoli'n llym

**4.12** Ni cheir datgelu data a gesglir ar gyfer ymarfer paru data oni fydd awdurdod cyfreithiol i wneud hynny. Mae hyn yn gymwys i ddata a gesglir gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer ymarferion paru data a chanlyniadau'r ymarferion hynny.

**4.13** Mae awdurdod cyfreithiol i ddatgelu'r data neu'r canlyniadau pan fydd hyn yn helpu i atal a chanfod twyll. Ymhlith yr enghreifftiau o hyn mae datgelu'r canlyniadau i'r Corff sy'n Cymryd Rhan er mwyn ymchwilio i unrhyw ddata a gaiff eu paru a'u datgelu i archwiliwr a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol i'w alluogi i asesu trefniadau'r Corff sy'n Cymryd Rhan ar gyfer atal a chanfod twyll. Fodd bynnag, dim ond at ddiben yn ymwneud â chorff perthnasol y GIG y caiff data cleifion eu rhannu.

**4.14** Caiff yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ddatgelu data i gyrff archwilio cyfatebol yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, i'r cyrff y maent yn archwilio eu cyfrifon neu'n trefnu i'w cyfrifon gael eu harchwilio, ac i'r archwilwyr a benodir ganddynt. Dim ond os bydd eu datgelu ymhellach yn helpu i atal a chanfod twyll, ymchwilio i drosedd a'i herlyn, at ddiben datgelu hynny i archwilydd neu fel arall fel sy'n ofynnol gan statud y caiff corff sydd wedi cael canlyniadau gan yr Archwilydd Cyffredinol neu ei asiant wneud hynny.

**4.15** Caiff yr Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi adroddiadau ar ei ymarferion paru data. Byddant yn crynhoi'r gwaith a'r canlyniadau. Fodd bynnag, ni fyddant yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol a gafwyd ar gyfer ymarferion paru data y gellir adnabod unigolyn neu gorff ohonynt, oni fydd y wybodaeth wedi'i chyhoeddi eisoes. Caiff yr Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiadau ar hynt erlyniadau sy'n deillio o baru data oherwydd byddant yn hysbys i'r cyhoedd.

**4.16** Mae unrhyw ddatgeliad gan yr Archwilydd Cyffredinol, Corff sy'n Cymryd Rhan neu unrhyw un arall sy'n torri'r cyfyngiadau hyn yn drosedd. Nodir testun y ddarpariaeth berthnasol (adran 64D o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004) yn Atodiad 3.

# Rhan 5 – Cadw data: ni chaiff y data eu cadw yn fwy nag sydd ei angen

**5.1** Dylai Cyrff sy'n Cymryd Rhan drafod yr hyn y dylid ei gadw yn eu hamgylchiadau unigol gyda'u partner ymgysylltu ar gyfer yr archwiliad, yn enwedig o ran cofnodion o ddata a gaiff eu paru sy'n dynodi twyll. Er enghraifft, gallai fod eu hangen fel papurau gwaith ar gyfer archwiliad, neu ar gyfer ymchwiliad parhaus neu erlyniad.

**5.2** Bydd yr Archwilydd Cyffredinol neu ei asiantau yn dinistrio'r holl setiau o ddata gwreiddiol a ddarparwyd iddo gan gyrff sy'n cymryd rhan o fewn chwe mis i'w cyflwyno. Efallai y bydd angen cadw data penodol er mwyn darparu tystiolaeth ar gyfer erlyniadau neu er mwyn gosod amodau ar gyfrifon. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn dinistrio'r holl ddata a gafwyd neu a gynhyrchwyd o'r setiau o ddata gwreiddiol yn brydlon, ac eithrio tystiolaeth ar gyfer erlyniadau, nodi achosion o wyngalchu arian neu i osod amodau, o fewn tri mis i gwblhau'r ymarfer.

**5.3** Cedwir hefyd un set o godau cyfeirio ar gyfer data a gaiff eu paru yn ddiogel all-lein gan yr Archwilydd Cyffredinol neu ei asiantau tra'u bod yn berthnasol. Gwneir hyn er mwyn atal ail-ymchwilio i ddata a gaiff eu paru yn ddiangen mewn unrhyw ymarfer paru data dilynol. Bydd data a gedwir yn destun gofynion y Ddeddf Diogelu Data.

# Rhan 6 – Cyfyngir ar yr hawl i weld data personol a gwybodaeth am fanylion ymarferion paru data

**6.1** Mae gan unigolion y cynhwysir eu data mewn ymarferion paru data hawliau i weld eu gwybodaeth, ac i sicrhau ei diogelwch, o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Ceir hawliau i wybodaeth arall hefyd o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Dylid ymdrin â cheisiadau am wybodaeth yn unol â threfniadau cyffredinol y sefydliad ar gyfer ymdrin â cheisiadau am wybodaeth.

**6.2** Fodd bynnag, mewn amgylchiadau penodol, gall data personol a gaiff eu prosesu er mwyn atal a chanfod twyll, fel yn achos ymarferion paru data, gael eu heithrio rhag darpariaethau cais unigolyn am wybodaeth y Ddeddf Diogelu Data drwy adran 29 o'r Ddeddf honno (troseddau a threthiant). Golyga hyn y gellir gwrthod ceisiadau pobl am weld eu gwybodaeth a brosesir yn ystod ymarferion paru data. Fodd bynnag, dim ond pan fyddai datgelu'r data yn debygol o beryglu'r broses o atal neu ganfod trosedd neu ddal neu erlyn troseddwr y byddai'r eithriad hwn yn berthnasol. Byddai'r penderfyniad hwn yn cael ei wneud fesul achos. Fel arfer bydd gwybodaeth bersonol yn dod o dan yr eithriad o ran gwybodaeth bersonol (adran 40) yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gan felly atal ei datgelu i bobl eraill.

**6.3** Gall unigolion sydd am wybod p'un a yw eu data yn cael eu cynnwys mewn ymarfer paru data wirio'r manylion data ar gyfer pob ymarfer yn http://www.wao.gov.uk/whatwedo/1252.asp neu drwy gysylltu â Chydgysylltydd Menter Twyll Genedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru (gweler Atodiad 4 i gael manylion cyswllt). Byddai modd iddynt wirio bod y data a geir amdanynt yn gywir drwy gysylltu â'r corff sy'n cymryd rhan sy'n cadw'r wybodaeth amdanynt.

**6.4** Gallai ceisiadau am wybodaeth (amhersonol) arall o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy'n ymwneud ag ymarferion paru data, fod yn destun yr eithriadau a ddarperir gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, yn enwedig yr eithriad o ran gorfodi'r gyfraith (adran 31). Fodd bynnag, dim ond pan fyddai datgelu'r data yn debygol o beryglu'r broses o atal neu ganfod trosedd y byddai'r eithriad o ran gorfodi'r gyfraith yn berthnasol. Byddai'r penderfyniad hwn yn cael ei wneud fesul achos. Fodd bynnag, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn sicrhau bod gwybodaeth nad yw'n destun yr eithriadau ar gael yn hawdd drwy, er enghraifft, ei adroddiadau cryno a gyhoeddir ar ymarferion paru data. Hefyd bydd yn diweddaru ei gynllun cyhoeddi yn rheolaidd i restru deunyddiau sy'n darparu gwybodaeth am ymarferion paru data.

**6.5** Dylai fod gan Gyrff sy'n Cymryd Rhan weithdrefnau i ymdrin â cheisiadau gan unigolion am gael gweld eu data, ac ar gyfer cwynion am gynnwys eu data mewn ymarfer paru data. Dylai fod ganddynt hefyd drefniadau ar gyfer diweddaru a chywiro data, fel y nodir ym mharagraff 3.2. Os bydd Corff sy'n Cymryd Rhan yn cael cwyn yn ystod ymarfer paru data sy'n ymwneud â sail statudol yr ymarfer, neu fod yr Archwilydd Cyffredinol fel arall yn y sefyllfa orau i ymdrin â hi, dylai'r Corff drosglwyddo'r cais yn brydlon. Dylid anfon cwynion am rôl yr Archwilydd Cyffredinol wrth gynnal ymarferion paru data at Reolwr Cwynion Swyddfa Archwilio Cymru (gweler Atodiad 4) fel y gellir ymdrin â hwy o dan weithdrefn gwyno Swyddfa Archwilio Cymru.

# Rhan 7 – Adolygu: Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn adolygu gweithdrefnau paru data yn rheolaidd ac yn gwahodd y Comisiynydd Gwybodaeth i asesu cydymffurfiaeth

**7.1** Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn adolygu gweithdrefnau paru data yn rheolaidd, er enghraifft mewn perthynas â'r canlynol:

- **a** a yw hysbysiadau prosesu teg a ddarperir gan Gyrff sy'n Cymryd Rhan yn ddigonol;
- **b** yw ansawdd setiau data yn dderbyniol;
- **c** a yw'r rhai sy'n cymryd rhan yn cyrraedd safonau diogelwch; ac
- **d** a yw'r rhai sy'n cymryd rhan yn cydymffurfio â chyfnodau cadw.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adolygu canlyniadau pob ymarfer er mwyn mireinio'r dewis o ddata a'r technegau a ddefnyddir mewn ymarferion yn y dyfodol. Fel rhan o'i adolygiadau, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried unrhyw gwynion gan Gyrff sy'n Cymryd Rhan neu bobl y mae eu data wedi eu prosesu yn ystod yr ymarferion.

**7.2** Pan fydd yr Archwilydd Cyffredinol yn dod yn ymwybodol o'r ffaith nad yw Corff sy'n Cymryd Rhan wedi cydymffurfio â gofynion y Cod, bydd yn hysbysu'r corff dan sylw ac yn ceisio sicrhau ei fod yn rhoi mesurau digonol ar waith i fodloni gofynion y Cod. Dylai cwestiynau yn ymwneud â'r Cod a phryderon yn ymwneud â ddiffyg cydymffurfiaeth gael eu cyflwyno i'r Corff sy'n Cymryd Rhan neu i'r Archwilydd Cyffredinol yn y lle cyntaf.

**7.3** Gellir cyfeirio cwestiynau sy'n ymwneud â'r gyfraith a rhannu gwybodaeth at y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn rheoleiddio cydymffurfiaeth â Deddf Diogelu Data 1998. Os caiff mater ei gyfeirio at y Comisiynydd Gwybodaeth, byddai'n ystyried cydymffurfiaeth cyrff sy'n cymryd rhan a'r Archwilydd Cyffredinol â'r Cod hwn wrth benderfynu ar natur unrhyw weithred orfodi. Mae canllawiau ar ddull y Comisiynydd Gwybodaeth o ran gorfodi a'i Strategaeth Diogelu Data ar gael ar ei wefan.

**7.4** Gellir cysylltu â'r Comisiynydd yn:

The Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF

Llinell Gymorth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

08456 30 60 60
01625 54 57 45

E-bost: mail@ico.gsi.gov.uk

Gwefan: www.ico.gov.uk (defnyddiwch y ffurflen ymholiadau ar-lein ar gyfer cwestiynau sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth y mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn gyfrifol amdani)

**7.5** Gwahoddwyd y Comisiynydd Gwybodaeth (o dan adran 51 (7) o Ddeddf Diogelu Data 1998) i adolygu ymarferion paru data'r Archwilydd Cyffredinol o bryd i'w gilydd, er mwyn asesu cydymffurfiaeth â Deddf Diogelu Data 1998. Anogir Cyrff sy'n Cymryd Rhan i wahodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i adolygu eu gweithdrefnau. Diben yr adolygiad hwn fyddai asesu cydymffurfiaeth Cyrff sy'n Cymryd Rhan ag egwyddorion diogelu data wrth brosesu data personol at ddibenion ymarferion paru data.

# Atodiad 1 – Diffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y Cod

At ddibenion y Cod hwn mae'r diffiniadau canlynol yn gymwys:

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Cod | Cod Ymarfer ar Baru Data 2008 |
| Paru Data | y broses o gymharu setiau data, megis y gyflogres neu gofnodion budd-daliadau un corff yn erbyn cofnodion eraill a gedwir gan yr un corff neu gorff arall, er mwyn pennu i ba raddau y maent yn cyfateb er mwyn gallu nodi hawliadau a thaliadau twyllodrus posibl |
| Prif Gyswllt | y swyddog a enwebir gan Uwch Swyddog Cyfrifol Corff sy'n Cymryd Rhan i weithredu fel cyswllt â'r Archwilydd Cyffredinol a'i asiantau (megis y Comisiwn Archwilio) at ddibenion ymarferion paru data |
| Corff Gorfodol | corff y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn unol ag adran 64B o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol iddo ddarparu data ar gyfer ymarfer paru data |
| Data Cleifion | data sy'n ymwneud ag unigolyn a gedwir at ddibenion meddygol (o fewn ystyr adran 251 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006) y gellir adnabod yr unigolyn ohonynt - mae hyn yn cynnwys data clinigol, megis cofnodion meddygol, a data demograffig, megis cyfeiriadau cleifion |
| Swyddog Cyfrifol | Cyfarwyddwr Cyllid neu uwch aelod arall o staff a enwir y Corff sy'n Cymryd Rhan sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod hwn |
| Corff sy'n Cymryd Rhan | naill ai Corff Gorfodol neu Wirfoddol sy'n Cymryd Rhan sy'n rhoi data i'r Archwilydd Cyffredinol neu ei asiantau (megis y Comisiwn Archwilio) at ddibenion ymarfer paru data |
| Corff sy'n Cymryd Rhan yn Wirfoddol | corff y mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn ei bod yn briodol derbyn data ganddo yn wirfoddol at ddiben paru data |

# Atodiad 2 – Enghreifftiau o hysbysiadau prosesu teg haenog arfer da

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn argymell llunio hysbysiadau prosesu teg ar ffurf haenau. Disgrifir diben pob haen a'i manteision ym mharagraffau 2.7 i 2.13.

Rhaid i gyrff sy'n cymryd rhan yn ymarferion paru data'r Archwilydd Cyffredinol benderfynu ar gynnwys hysbysiadau prosesu teg a'r ffordd o'u cyflwyno eu hunain, ond nodir enghreifftiau o arfer da isod. Dylai cyrff geisio ymgorffori hysbysiadau mewn dulliau cyfathrebu presennol lle bynnag y bo'n bosibl.

### Lefel 1 - Testun Cryno - Enghraifft ar gyfer Ffurflenni Cais (er enghraifft, ar gyfer budd-daliadau, tenantiaethau tai, cyflogaeth, masnachwyr marchnad a gyrwyr tacsi)

| |
|---|
| Fel corff cyhoeddus, mae gennym ddyletswydd i ddiogelu'r arian cyhoeddus a weinyddir gennym, ac i'r perwyl hwn gellir defnyddio'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen hon i atal a chanfod twyll. Gallwn hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus at y dibenion hyn.<br>Am ragor o wybodaeth, gweler {web-link to Level 2 notice on authority's website} neu cysylltwch â {name and contact details}. |

### Lefel 1 - Testun Cryno - Enghraifft ar gyfer Slipiau Cyflog (ar gyfer cyflogeion)

| |
|---|
| Noder bod yn rhaid i ddata cyflogres allweddol gael ei roi i gyrff sy'n gyfrifol am archwilio a gweinyddu arian cyhoeddus er mwyn atal a chanfod twyll. Am ragor o fanylion, gweler {web-link to Level 2 notice on body's website} neu cysylltwch â {name and contact details}. |

**Lefel 1 - Testun Cryno - Enghraifft ar gyfer Llythyrau (er enghraifft, i bensiynwyr, cyflogeion a thenantiaid, pan nad oes cylchlythyr, slip cyflog neu fath arall o gyfathrebu sefydlog ar gael)**

Mae'r enghraifft hon wedi cael ei drafftio ar gyfer pensiynwyr; dylai'r geiriau mewn [cromfachau sgwâr] gael eu diwygio'n briodol ar gyfer cyflogeion, tenantiaid ac ati.

Annwyl {enw'r [pensiynwr]}

ER GWYBODAETH YN UNIG MAE'R LLYTHYR HWN - NID OES ANGEN I CHI GYMRYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod {name of Audited Body} yn cymryd rhan mewn ymarfer i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n briodol.

Mae'n ofynnol i {name of audited body} yn unol â'r gyfraith ddiogelu'r arian cyhoeddus a weinyddir ganddo. Gall rannu gwybodaeth a roddir iddo â chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus er mwyn atal a chanfod twyll.

Ar hyn o bryd mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i ni gymryd rhan yn ei fenter atal twyll. Ar gyfer y fenter hon, rydym yn darparu manylion [pensiynwyr] er mwyn eu cymharu â gwybodaeth a ddarperir gan gyrff cyhoeddus eraill. Bydd hyn yn sicrhau [na chaiff unrhyw bensiynau eu talu i bobl sydd wedi marw neu nad oes ganddynt yr hawl i'w cael mwyach, a bod incwm pensiwn galwedigaethol yn cael ei ddatgan pan wneir cais am fudd-dal tai].

Weithiau gwneir y taliadau anghywir o ganlyniad i wall gwirioneddol. Mae ymarferion blaenorol wedi datgelu achosion lle nad yw [pensiynwyr] wedi bod yn cael digon o [bensiwn], gan arwain at gynyddu'r taliadau i [bensiynwyr]. Felly, bydd yr ymarferion hyn yn helpu i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o arian cyhoeddus.

Nid oes angen i chi ymateb i'r llythyr hwn. Efallai y byddwn yn cysylltu â chi eto yn y dyfodol os bydd yr ymarfer yn awgrymu nad ydych yn cael y swm cywir o [bensiwn]. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw gwestiynau, dylech gysylltu â {enw a manylion cyswllt}. Mae rhagor o wybodaeth hefyd ar gael ar ein gwefan yn {web-link} ac ar ein gwefan yn {Participating body's web-link}.

**Lefel 2 - Testun Cywasgedig - i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod**

Fel awdurdod cyhoeddus, mae'n ofynnol i ni yn unol â'r gyfraith ddiogelu'r arian cyhoeddus a weinyddir gennym. Gallwn rannu gwybodaeth a roddir i ni â chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus er mwyn atal a chanfod twyll.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal ymarferion paru data yn unol â'i bwerau o dan y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae paru data yn cynnwys cymharu cofnodion cyfrifiadurol a ddelir gan un corff yn erbyn cofnodion cyfrifiadurol eraill a ddelir gan yr un corff neu gorff arall i weld i ba raddau maent yn paru. Gwybodaeth bersonol yw'r data hwn fel arfer. Mae paru data cyfrifiadurol yn golygu bod modd adnabod ceisiadau a thaliadau twyllodrus. Pan gaiff data ei baru mae'n dynodi bod anghysondeb y mae angen ymchwilio iddo ymhellach. Ni ellir tybio a oes achos o dwyll, gwall neu esboniad arall hyd nes y cynhelir ymchwiliad.

Ar hyn o bryd mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i ni gymryd rhan mewn ymarfer paru data er mwyn helpu i atal a chanfod twyll. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod hwn ddarparu gwybodaeth sydd ganddo at y diben hwn. Mae'n ofynnol i ni roi setiau penodol o ddata i'r Archwilydd Cyffredinol er mwyn eu paru. Mae'r manylion wedi'u gosod ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn www.wao.gov.uk.

Gan fod y defnydd o ddata gan yr Archwilydd Cyffredinol mewn ymarfer paru data yn destun awdurdod statudol (Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004), nid oes angen cael caniatâd yr unigolion dan sylw o dan Ddeddf Diogelu Data 1998.

Mae prosesau paru data'r Archwilydd Cyffredinol yn destun Cod Ymarfer. Mae hyn er mwyn rhoi cymorth i'r cyrff sy'n ymwneud â pharu data i gydymffurfio â'r gyfraith ac ymarfer da, gan gynnwys cynnal diogelwch data (gweler www.wao.gov.uk).

Am ragor o wybodaeth am bwerau cyfreithiol yr Archwilydd Cyffredinol a'r rhesymau dros baru gwybodaeth benodol, gweler {web-link to Level 3 notice WAO website} neu cysylltwch â {name of Key Contact, email, address and phone number}.

## Lefel 3 - Testun Llawn - i'w gyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru

### Ymarferion paru data'r Archwilydd Cyffredinol

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal ymarferion paru data i helpu i atal a chanfod twyll.

Mae paru data yn cynnwys cymharu cofnodion cyfrifiadurol a ddelir gan un corff yn erbyn cofnodion cyfrifiadurol eraill a ddelir gan yr un corff neu gorff arall i weld i ba raddau maent yn paru. Mae paru data cyfrifiadurol yn golygu bod modd adnabod ceisiadau a thaliadau twyllodrus. Pan gaiff data ei baru mae'n dynodi bod anghysondeb y mae angen ymchwilio iddo ymhellach. Ni ellir tybio a oes achos o dwyll, gwall neu esboniad arall hyd nes y cynhelir ymchwiliad.

Gan fod y defnydd o ddata gan yr Archwilydd Cyffredinol mewn ymarfer paru data yn destun awdurdod statudol (Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004), nid oes angen cael caniatâd yr unigolion dan sylw o dan Ddeddf Diogelu Data 1998.

Mae pob corff sy'n cymryd rhan yn ymarferion paru data'r Archwilydd Cyffredinol yn cael adroddiad sy'n nodi'r data a gafodd eu paru yng nghofnodion y corff hwnnw a rhwng cofnodion y corff hwnnw a rhai cyrff perthnasol eraill. Cyfrifoldeb y corff ei hun yw ymchwilio i'r data a gaiff eu paru, er mwyn canfod achosion o dwyll, gordaliadau neu dandaliadau a gwallau eraill ynghyd â diweddaru ei gofnodion yn unol â hynny.

Hyd yma, mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi arwain at ganfod tua £7 miliwn o dwyll a gordaliadau yng Nghymru.

## Sail gyfreithiol

O 2008, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnal ymarferion paru data o dan bwerau statudol newydd a gynhwysir yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Troseddu Difrifol 2007. Cynhaliwyd ymarferion blaenorol o dan ei swyddogaethau archwilio ac astudio gwerth am arian yn Neddf 2004 a Deddf Llywodraeth Cymru 1998, ac o dan bwerau'r archwilydd penodedig.

O dan y pwerau newydd:

- **a** caiff yr Archwilydd Cyffredinol gynnal ymarferion paru data er mwyn helpu i atal a chanfod twyll;
- **b** caiff yr Archwilydd Cyffredinol ei gwneud yn ofynnol i lywodraeth leol a chyrff y GIG yng Nghymru ddarparu data ar gyfer ymarferion paru data;
- **c** caiff cyrff a phobl eraill gymryd rhan yn ei ymarferion paru data yn wirfoddol pan fo'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod hynny'n briodol. Pan wneir hynny, noda'r statud na thorrir cyfrinachedd ac yn gyffredinol mae'n gwaredu cyfyngiadau eraill o ran darparu'r data i'r Archwilydd Cyffredinol;
- **d** mae gofynion Deddf Diogelu Data 1998 yn parhau i fod yn gymwys;
- **e** caiff yr Archwilydd Cyffredinol ddatgelu canlyniadau ymarferion paru data i gyrff sydd wedi darparu'r data ac i archwilwyr a benodir ganddo, os bydd hyn yn helpu i atal a chanfod twyll ac at ddibenion penodol eraill;
- **f** caiff yr Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi adroddiad cryno;
- **g** caiff yr Archwilydd Cyffredinol ddatgelu data a ddarparwyd ar gyfer ymarferion paru data a chanlyniadau'r ymarferion hynny i'r Comisiwn Archwilio, Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon, Archwilydd Cyffredinol yr Alban, Comisiwn Cyfrifon yr Alban ac Audit Scotland, at ddibenion atal a chanfod twyll;
- **h** mae achos anghyfiawn o ddatgelu data a ddarparwyd ar gyfer ymarferion paru data yn drosedd;
- **i** caiff yr Archwilydd Cyffredinol godi tâl ar unrhyw gorff sy'n cymryd rhan mewn ymarfer paru data;
- **j** rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol baratoi a chyhoeddi Cod Ymarfer. Rhaid i bob corff sy'n cynnal ei ymarferion paru data neu'n cymryd rhan ynddynt ystyried y Cod, gan gynnwys yr Archwilydd Cyffredinol ei hun.

## Cyrff y mae'n ofynnol iddynt ddarparu data i'w paru neu sy'n gwirfoddoli data i'w paru

Ar hyn o bryd, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau llywodraeth leol unedol, awdurdodau'r heddlu, awdurdodau tân ac achub, Byrddau Iechyd Lleol (BILlau), Ymddiriedolaethau'r GIG, byrddau prawf ac ymddiriedolaethau prawf ddarparu data. Yn ogystal, mae'r cyrff canlynol yn rhoi data i'r Archwilydd Cyffredinol i'w paru a hynny'n wirfoddol:

Llywodraeth Cynulliad Cymru
[List of voluntary participating bodies to be updated from time to time]

## Y data a gaiff eu paru a'r rhesymau dros wneud hynny

Am wybodaeth sy'n disgrifio pa setiau o ddata a gaiff eu paru gan yr Archwilydd Cyffredinol a dibenion pob ymarfer paru data, gweler canllawiau'r Archwilydd Cyffredinol sydd ar gael ar y wefan hon.

## Cod Ymarfer ar Baru Data

Mae ymarferion paru data'r Archwilydd Cyffredinol yn destun Cod Ymarfer (gweler www.wao.gov.uk). Mae hyn er mwyn rhoi cymorth i'r cyrff sy'n ymwneud â pharu data i gydymffurfio â'r gyfraith ac ymarfer da, gan gynnwys cynnal diogelwch data.

## Rhagor o wybodaeth

Mae mwy o fanylion am ymarferion paru data'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys adroddiadau cenedlaethol, cyhoeddiadau a chanllawiau eraill, ar gael yn www.wao.gov.uk. Gellir cael rhagor o wybodaeth am ymarferion y Fenter Twyll Genedlaethol yn http://www.wao.gov.uk/whatwedo/1252.asp.

Fel arall cysylltwch â Chydgysylltydd Menter Twyll Genedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ (nfi@wales.gov.uk).

# Atodiad 3 – Dapariaethau statudol perthnasol

Yn yr atodiad hwn ceir detholiadau o'r darpariaethau statudol canlynol:

- **i** Atodlen 1, 2 a 3 o Ddeddf Diogelu Data 1998 - egwyddorion diogelu data a gofynion prosesu teg;
- **ii** Adran 27 o Ddeddf Diogelu Data 1998 – eithriadau;
- **iii** Adran 29 o Ddeddf Diogelu Data 1998 – eithriad o ran troseddau a threthiant;
- **iv** Adran 34 o Ddeddf Diogelu Data 1998 – eithriad o ran gwybodaeth sydd ar gael gan neu o dan ddeddfiad;
- **v** Adran 35 o Ddeddf Diogelu Data 1998 – eithriad o ran datgeliadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith;
- **vi** Adran 31 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 - eithriad o ran gorfodi'r gyfraith;
- **vii** Adran 40 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 - eithriad o ran gwybodaeth bersonol;
- **viii** Adran 64A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 - pŵer i gynnal ymarferion paru data;
- **ix** Adran 64B o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 - darparu data yn orfodol;
- **x** Adran 64C o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 - darparu data yn wirfoddol;
- **xi** Adran 64D o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 - datgelu canlyniadau paru data ac ati (gan gynnwys troseddau).

## i) Egwyddorion diogelu data a gofynion prosesu teg yn Neddf Diogelu Data 1998

**Atodlen 1, Rhan 1 - Yr Egwyddorion**

**1** Caiff data personol eu prosesu yn deg a chyfreithlon ac, yn arbennig, ni chânt eu prosesu oni fydd:

**(a)** o leiaf un o'r amodau yn Atodlen 2 yn cael ei fodloni, a

**(b)** yn achos data personol sensitif, bod o leiaf un o'r amodau yn Atodlen 3 yn cael ei fodloni.

**2** Dim ond at un neu fwy o ddibenion penodol a chyfreithlon y gellir cael gafael ar ddata personol, ac ni chânt eu prosesu mewn unrhyw fodd sy'n anghydnaws â'r diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

**3** Bydd data personol yn ddigonol, perthnasol a heb fod yn ormodol mewn perthynas â'r diben neu'r dibenion y'u prosesir.

**4** Bydd data personol yn gywir a, lle y bo'n angenrheidiol, wedi'u diweddaru.

**5** Ni chedwir data personol a broseswyd at unrhyw ddiben neu ddibenion am gyfnod hirach nag sy'n angenrheidiol i'r diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

**6** Caiff data personol eu prosesu yn unol â hawliau'r unigolion y mae'r data yn ymwneud â hwy o dan y Ddeddf hon.

**7** Cymerir camau technegol a threfniadol priodol yn erbyn achosion o brosesu data personol heb ganiatâd neu yn anghyfreithlon ac achosion o golli, dinistrio, neu ddifrodi data personol yn ddamweiniol.

...

**Atodlen 1, Rhan II**

**Dehongliad o'r Egwyddorion yn Rhan I**

***Yr egwyddor gyntaf***

**1**

**(1)** Wrth bennu at ddibenion yr egwyddor gyntaf a gaiff data personol eu prosesu mewn modd teg, rhaid ystyried y ffordd y caiff y data hwnnw eu casglu, gan gynnwys yn arbennig a gaiff unrhyw un sy'n destun y data hwnnw ei dwyllo neu ei gamarwain o ran diben neu ddibenion y gwaith prosesu.

**(2)** Yn amodol ar baragraff 2, at ddibenion yr egwyddor gyntaf ystyrir bod data wedi cael eu casglu mewn modd teg os ydynt yn cynnwys gwybodaeth a gafwyd gan unigolyn sydd -

- **(a)** wedi'i awdurdodi gan ddeddfiad neu o dan ddeddfiad i'w darparu, neu
- **(b)** yn destun gofyniad i'w darparu gan ddeddfiad neu o dan ddeddfiad neu unrhyw gonfensiwn neu offeryn arall sy'n gosod rhwymedigaeth ryngwladol ar y Deyrnas Unedig.

**2**

**(1)** Yn amodol ar baragraff 3, at ddibenion yr egwyddor gyntaf nid ystyrir bod data personol wedi cael eu prosesu mewn modd teg oni fydd—

- **(a)** y rheolwr data, yn achos data a gesglir gan destun y data, yn sicrhau i'r graddau y bo'n ymarferol fod testun y data wedi cael neu yn cael y wybodaeth a nodir yn is-baragraff (3), neu fod y wybodaeth honno wedi bod ar gael iddo'n hawdd,
- **(b)** mewn unrhyw achos arall, bod y rheolwr data yn sicrhau i'r graddau y bo'n ymarferol fod testun y data wedi cael neu yn cael y wybodaeth a nodir yn is-baragraff (3), neu fod y wybodaeth honno wedi bod ar gael iddo'n hawdd, cyn yr adeg berthnasol neu cyn gynted â phosibl ar ôl yr adeg honno.

**(2)** Yn is-baragraff (1)(b) ystyr "yr adeg berthnasol" yw—

- **(a)** yr adeg pan fo'r rheolwr data yn prosesu'r data am y tro cyntaf, neu
- **(b)** mewn achos lle ar yr adeg honno y rhagwelir eu datgelu i drydydd parti o fewn cyfnod rhesymol—
  - **(i)** os caiff y data eu datgelu i unigolyn o'r fath o fewn y cyfnod hwnnw, yr adeg y caiff y data eu datgelu gyntaf;
  - **(ii)** os, o fewn y cyfnod hwnnw, y daw'r rheolwr data, neu os dylai ddod, yn ymwybodol o'r ffaith bod y data yn annhebygol o gael eu datgelu i unigolyn o'r fath o fewn y cyfnod hwnnw, yr adeg pan ddaw'r rheolwr data yn ymwybodol o hynny, neu y dylai ddod yn ymwybodol o hynny, neu
  - **(iii)** mewn unrhyw achos arall, diwedd y cyfnod hwnnw.

**(3)** Mae'r wybodaeth y cyfeirir ati yn is-baragraff (1) fel a ganlyn, sef—

- **(a)** pwy yw'r rheolwr data,
- **(b)** os yw wedi enwebu cynrychiolydd at ddibenion y Ddeddf hon, pwy yw'r cynrychiolydd hwnnw,
- **(c)** diben neu ddibenion y bwriad i brosesu'r data;

(d) unrhyw wybodaeth bellach sy'n angenrheidiol, gan ystyried yr amgylchiadau penodol y caiff y data eu prosesu ynddynt, er mwyn i'r gwaith prosesu fod yn deg o ran testun y data.

**3**

**(1)** Nid yw Paragraff 2(1)(b) yn gymwys lle bodlonir unrhyw un o'r amodau sylfaenol yn is-baragraff (2), ynghyd ag amodau pellach y gellir eu rhagnodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy orchymyn.

**(2)** Yr amodau sylfaenol y cyfeirir atynt yn is-baragraff (1) yw—

**(a)** y byddai darparu'r wybodaeth honno yn golygu ymdrech anghymesur, neu

**(b)** bod cofnodi'r wybodaeth i'w chynnwys yn y data gan y rheolwr data, neu ddatgelu'r data ganddo, yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolwr data yn ddarostyngedig iddi, ar wahân i rwymedigaeth a osodir drwy gontract.

**4**

…

**Atodlen 2**

**Amodau sy'n Berthnasol at Ddibenion yr Egwyddor Gyntaf: Prosesu unrhyw Ddata Personol**

…

**3**

Mae'r gwaith prosesu yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolwr data yn ddarostyngedig iddi, ar wahân i rwymedigaeth a osodir drwy gontract.

**4**

…

**5**

Mae'r gwaith prosesu yn angenrheidiol-

**(a)** i weinyddu cyfiawnder,

**(aa)** …

**(b)** i gyflawni unrhyw swyddogaethau a roddir i unigolyn gan neu o dan unrhyw ddeddfiad,

**(c)** i gyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r Goron, un o Weinidogion y Goron neu un o adrannau'r llywodraeth, neu

**(d)** i gyflawni unrhyw swyddogaethau cyhoeddus eraill sydd er budd y cyhoedd gan unrhyw un.

**6**

**(1)** Mae'r gwaith prosesu yn angenrheidiol at ddibenion buddiannau cyfreithlon a geisir gan y rheolwr data neu gan y trydydd parti neu bartïon y datgelir y data iddynt, ac eithrio pan nad yw'r gwaith prosesu yn gyfiawn mewn unrhyw achos penodol am y bydd yn peryglu hawliau a rhyddid neu fuddiannau cyfreithlon testun y data.

**(2)** Drwy orchymyn caiff yr Ysgrifennydd Gwladol nodi amgylchiadau penodol lle y dylid ystyried bod yr amod hwn yn cael ei fodloni neu nad yw'n cael ei fodloni.

**Atodlen 3**

**Amodau sy'n Berthnasol at Ddibenion yr Egwyddor Gyntaf: Prosesu Data Personol Sensitif**

**1**

…

**2**

**(1)** Mae'r gwaith prosesu yn angenrheidiol at ddibenion arfer unrhyw hawl neu gyflawni unrhyw rwymedigaeth a roddir i'r rheolwr data neu a osodir arno gan y gyfraith mewn perthynas â chyflogaeth.

…

**6**

Mae'r gwaith prosesu -

- **(a)** yn angenrheidiol at ddiben, neu mewn cysylltiad ag, unrhyw achosion cyfreithiol (gan gynnwys achosion cyfreithiol posibl),
- **(b)** yn angenrheidiol at ddiben cael cyngor cyfreithiol, neu
- **(c)** is otherwise necessary for the purposes of establishing, exercising or defending legal rights.

**7**

**(1)** Mae'r gwaith prosesu yn angenrheidiol—

- **(a)** i weinyddu cyfiawnder,

…

- **(b)** i gyflawni unrhyw swyddogaethau a roddir i unigolyn gan neu o dan ddeddfiad, neu
- **(c)** i gyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r Goron, un o Weinidogion y Goron neu un o adrannau'r llywodraeth.

**(2)** Drwy orchymyn caiff yr Ysgrifennydd Gwladol—

- **(a)** eithrio cymhwyso is-baragraff (1) yn y cyfryw achosion ag y gellir eu nodi, neu
- **(b)** darparu, yn y cyfryw achosion ag y gellir eu nodi, na ddylid ystyried bod yr amod yn is-baragraff (1) wedi'i fodloni oni fydd y cyfryw amodau eraill ag y gellir eu nodi yn y gorchymyn hefyd wedi'u bodloni.

## ii) Adran 27 o Ddeddf Diogelu Data 1998 – eithriadau

**Darpariaethau gwybodaeth am unigolion a pheidio â datgelu**

**(1)** …

**(2)** Yn y Rhan hon ystyr "darpariaethau gwybodaeth am unigolion" yw—

- **(a)** yr egwyddor gyntaf o ran diogelu data i'r graddau y mae angen cydymffurfio â pharagraff 2 o Ran II o Atodlen 1,
- **(b)** adran 7.

**(3)** Yn y Rhan hon ystyr "darpariaethau peidio â datgelu" yw'r darpariaethau a nodir yn is-adran (4) i'r graddau y maent yn anghyson â'r datgeliad dan sylw.

**(4)** Y darpariaethau y cyfeirir atynt yn is-adran (3) yw-

- **(a)** yr egwyddor gyntaf o ran diogelu data i'r graddau y mae angen cydymffurfio â'r amodau yn Atodlenni 2 a 3,
- **(b)** yr ail, y drydedd, y bedwaredd a'r pumed egwyddor o ran diogelu data,
- **(c)** adrannau 10 a 14(1) i (3).

**(5)** Ac eithrio fel y darperir gan y Rhan hon, bydd y darpariaethau gwybodaeth am unigolion mewn grym oni fydd unrhyw ddeddfiad neu reol y gyfraith yn gwahardd neu'n cyfyngu ar ei datgelu, neu'n awdurdodi cadw'r wybodaeth yn ôl.

## iii) Adran 29 o Ddeddf Diogelu Data 1998 – eithriad o ran troseddau a threthiant

**(1)** Data personol a gaiff eu prosesu at unrhyw un o'r dibenion canlynol—

- **(a)** atal neu ganfod trosedd,
- **(b)** dal neu erlyn troseddwyr, neu

(c) asesu neu gasglu unrhyw dreth neu doll neu unrhyw orfodaeth debyg,

wedi'u heithrio rhag yr egwyddor gyntaf o ran diogelu data (ar wahân i'r graddau y mae'n gofyn am gydymffurfio â'r amodau yn Atodlenni 2 a 3) ac adran 7 mewn unrhyw achos i'r graddau y byddai cymhwyso'r darpariaethau hynny at y data yn debygol o beryglu unrhyw fater a grybwyllir yn yr is-adran hon.

**(2)** ...

**(3)** Mae data personol wedi'u heithrio rhag y darpariaethau peidio â datgelu mewn unrhyw achos lle—

**(a)** gwneir y datgeliad at unrhyw ddiben a nodir yn is-adran (1), a

**(b)** byddai cymhwyso'r darpariaethau hynny mewn perthynas â'r datgeliad yn debygol o beryglu unrhyw un o'r materion a nodwyd yn yr is-adran honno.

...

### iv) Adran 34 o Ddeddf Diogelu Data 1998 - eithriad o ran gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd gan ddeddfiad neu o dan ddeddfiad

Mae data personol wedi'u heithrio rhag—

**(a)** y darpariaethau gwybodaeth am unigolion,

**(b)** y bedwaredd egwyddor o ran diogelu data ac adran 14(1) i (3),

**(c)** y darpariaethau peidio â datgelu,

os yw'r data yn cynnwys gwybodaeth y mae'n ofynnol i'r rheolwr data gan neu o dan unrhyw ddeddfiad, ar wahân i ddeddfiad a geir yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ei rhoi i'r cyhoedd, naill ai drwy ei chyhoeddi, drwy sicrhau ei bod ar gael i'w harchwilio, neu fel arall a ph'un a wneir hynny am ddim neu drwy dalu ffi.

### v) Adran 35 o Ddeddf Diogelu Data 1998 – eithriad o ran datgeliadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith

**(1)** Mae data personol wedi'u heithrio rhag y darpariaethau peidio â datgelu lle bo'u datgelu yn ofynnol gan neu o dan unrhyw ddeddfiad, gan unrhyw reol y gyfraith neu drwy orchymyn llys.

**(2)** …

### vi) Adran 31 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 - eithriad o ran gorfodi'r gyfraith

**(1)** Mae gwybodaeth nad yw wedi'i heithrio gan adran 30 yn wybodaeth wedi'i heithrio os byddai ei datgelu o dan y Ddeddf hon yn, neu'n debygol o, beryglu—

**(a)** atal neu ganfod trosedd;

**(b)** dal neu erlyn troseddwyr;

…

**(2)** …

**(3)** Nid yw'r ddyletswydd i gadarnhau neu wrthod yn berthnasol os byddai, neu i'r graddau y byddai, cydymffurfio ag adran 1(1)(a) yn, neu'n debygol o, beryglu unrhyw fater a grybwyllir yn isadran (1).

### vii) Adran 40 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 - eithriad o ran gwybodaeth bersonol

**(1)** Mae unrhyw wybodaeth y mae cais am wybodaeth yn ymwneud â hi yn wybodaeth wedi'i heithrio os yw'n gyfystyr â data personol a'r sawl sy'n gwneud cais yw testun y data.

**(2)** Mae unrhyw wybodaeth y mae cais am wybodaeth yn ymwneud â hi hefyd yn wybodaeth wedi'i heithrio os—

**(a)** mae'n gyfystyr â data personol nad ydynt yn dod o dan isadran (1),

**(b)** caiff yr amod cyntaf neu'r ail amod isod ei fodloni.

**(3)** Yr amod cyntaf yw—

**(a)** mewn achos pan fo'r wybodaeth yn dod o dan unrhyw un o baragraffau (a) i (d) o'r diffiniad o "ddata" yn adran 1(1) o Ddeddf Diogelu Data 1998, y byddai datgelu'r wybodaeth i aelod o'r cyhoedd heblaw am o dan y Ddeddf hon yn mynd yn groes i—

**(i)** unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data, neu

**(ii)** adran 10 o'r Ddeddf honno (yr hawl i atal gwaith prosesu sy'n debygol o beri niwed neu ofid),

**(b)** mewn unrhyw achos arall, y byddai datgelu'r wybodaeth i aelod o'r cyhoedd heblaw am o dan y Ddeddf hon yn mynd yn groes i unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data pe byddai'r eithriadau yn adran 33A(1) o Ddeddf Diogelu Data 1998 (sy'n ymwneud â data papur a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus) yn cael eu hanwybyddu.

**(4)** Yr ail amod yw drwy unrhyw ddarpariaeth yn Rhan IV o Ddeddf Diogelu Data 1998 mae'r wybodaeth wedi'i heithrio rhag adran 7(1)(c) o'r Ddeddf honno (hawl testun y data i weld data personol).

**(5)** Mae'r ddyletswydd i gadarnhau neu wrthod—

**(a)** yn amherthnasol mewn perthynas â gwybodaeth sydd wedi'i heithrio (neu os byddai ym meddiant yr awdurdod cyhoeddus yn cael ei heithrio) drwy isadran (1),

**(b)** yn amherthnasol mewn perthynas â gwybodaeth arall os neu i'r graddau y byddai naill ai—

**(i)** rhoi'r cadarnhad neu'r gwrthodiad i aelod o'r cyhoedd a fyddai'n ofynnol i gydymffurfio ag adran 1(1)(a) (ar wahân i'r Ddeddf hon) yn mynd yn groes i unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data neu adran 10 o Ddeddf Diogelu Data 1998 neu y byddai'n gwneud hynny pe byddai'r eithriadau yn adran 33A(1) o'r Ddeddf honno yn cael eu diystyried, neu

**(ii)** drwy unrhyw ddarpariaeth yn Rhan V o Ddeddf Diogelu Data 1998 mae'r wybodaeth wedi'i heithrio rhag adran 7(1)(a) o'r Ddeddf honno (hawl testun y data i gael ei hysbysu o b'un a gaiff data personol eu prosesu).

**(6)** …

**(7)** Yn yr adran hon—

ystyr "yr egwyddorion diogelu data" yw'r egwyddorion a nodir yn Rhan I o Atodlen I i Ddeddf Diogelu Data 1998 fel y'i darllenwyd yn ddarostyngedig i Ran II o'r Atodlen honno ac adran 27(1) o'r Ddeddf honno;

mae i "destun y data" yr un ystyr ag yn adran 1(1) o'r Ddeddf honno;

mae i "ddata personol" yr un ystyr ag yn adran 1(1) o'r Ddeddf honno.

### viii) Adran 64A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 - pŵer i gynnal ymarferion paru data

**(1)** Caiff yr Archwilydd Cyffredinol gynnal ymarferion paru data ei hun, neu drefnu iddynt gael eu cynnal ar ei ran.

**(2)** Ymarfer sy'n cymharu setiau o ddata i bennu i ba raddau y maent yn paru yw ymarfer paru data (gan gynnwys nodi unrhyw batrymau neu dueddiadau).

**(3)** Gellir defnyddio'r pŵer yn is-adran (1) at ddiben helpu i atal a chanfod twyll yng Nghymru neu'n ymwneud â Chymru.

**(4)** Gallai'r help hwnnw fod yn rhan o archwiliad, ond nid o anghenraid.

**(5)** Ni ellir defnyddio ymarfer paru data i nodi patrymau a thueddiadau yn nodweddion neu ymddygiad unigolyn sy'n awgrymu dim mwy na'r posibilrwydd y bydd yn cyflawni twyll yn y dyfodol.

**(6)** Yn y darpariaethau canlynol o'r Rhan hon, bydd cyfeiriad at ymarfer paru data yn cyfeirio at ymarfer a gynhelir neu y trefnir iddo gael ei gynnal o dan yr adran hon.

### ix) Adran 64B o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 - darparu data yn orfodol

**(1)** Gallai Archwilydd Cyffredinol Cymru ei gwneud yn ofynnol i—

**(a)** unrhyw gorff a nodir yn is-adran (2), ac

**(b)** unrhyw swyddog neu aelod o'r cyfryw gorff,

ddarparu'r cyfryw ddata (ac yn y cyfryw ffurf) ag y gallai fod eu hangen yn rhesymol arnynt, i'r Archwilydd Cyffredinol neu unigolyn sy'n gweithredu ar ei ran er mwyn cynnal ymarferion paru data.

**(2)** Y cyrff yw—

**(a)** corff llywodraeth leol yng Nghymru (fel y'i diffinnir yn adran 12(1));

**(b)** corff y GIG yng Nghymru (fel y'i diffinnir yn adran 60).

**(3)** Bydd unigolyn sy'n methu â chydymffurfio â gofyniad yr Archwilydd Cyffredinol o dan is-adran (1)(b) heb reswm rhesymol yn euog o drosedd ac os y'i collfernir yn ddiannod gallai fod yn agored—

**(a)** i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol, ac

**(b)** i ddirwy ychwanegol heb fod yn uwch na £20 am bob diwrnod y bydd y drosedd yn parhau yn dilyn collfarn am y drosedd honno.

**(4)** Os caiff swyddog neu aelod o gorff ei gollfarnu o drosedd o dan is-adran (3), gall unrhyw gostau yr aed iddynt gan yr Archwilydd Cyffredinol mewn cysylltiad ag achos y drosedd honno, cyhyd â'u bod heb eu hadennill gan unrhyw ffynhonnell arall, gael eu hadennill gan y corff hwnnw.

### x) Adran 64C o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 - darparu data yn wirfoddol

**(1)** Os yw Archwilydd Cyffredinol Cymru o'r farn bod cynnal ymarfer paru data yn briodol gan ddefnyddio data a gedwir gan neu ar ran corff neu unigolyn nad yw'n ddarostyngedig i adran 64B, gellir datgelu'r data i'r Archwilydd Cyffredinol neu unigolyn sy'n gweithredu ar ei ran.

**(2)** Nid yw datgelu gwybodaeth o dan is-adran (1) yn mynd yn groes i–

**(a)** unrhyw rwymedigaeth cyfrinachedd sy'n ddyledus gan unigolyn sy'n datgelu, neu

(b) unrhyw gyfyngiad arall ar ddatgelu gwybodaeth (sut bynnag y'i gosodwyd).

(3) Ond nid oes unrhyw beth yn yr adran hon sy'n caniatáu datgelu gwybodaeth—

(a) sy'n mynd yn groes i Ddeddf Diogelu Data 1998 (c 29), neu

(b) a waherddir gan Ran 1 o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (c 23).

(4) Ni chaiff data eu datgelu o dan is-adran (1) os yw'r data yn cynnwys data cleifion.

(5) Mae "data cleifion" yn golygu data yn ymwneud ag unigolyn a gedwir at ddibenion meddygol (o fewn ystyr adran 251 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 (c 41)) ac y gellir adnabod yr unigolyn ohonynt.

(6) Nid yw'r adran hon yn cyfyngu ar yr amgylchiadau y gellir datgelu data ar wahân i'r adran hon.

(7) Gallai ymarferion paru data gynnwys data a ddarparwyd gan gorff neu unigolyn y tu allan i Gymru a Lloegr.

## xi) Adran 64D o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 - datgelu canlyniadau paru data ac ati

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i'r wybodaeth ganlynol—

(a) gwybodaeth sy'n ymwneud â chorff neu unigolyn penodol a gafwyd gan neu ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru at ddiben cynnal ymarfer paru data,

(b) canlyniadau'r cyfryw ymarfer.

(2) Gall gwybodaeth y mae'r adran hon yn gymwys iddi gael ei datgelu gan neu ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru os yw'r datgeliad—

(a) at neu mewn perthynas â diben cynnal yr ymarfer paru data,

(b) i gorff a grybwyllir yn isadran (3) (neu barti cysylltiedig) ar gyfer neu mewn perthynas ag un o swyddogaethau'r corff hwnnw sy'n cyfateb i swyddogaethau archwilydd neu sy'n debyg iddynt o dan Bennod 1 o Ran 2 neu swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Ran 3 neu'r Rhan hon, neu

(c) yn unol â dyletswydd a osodwyd gan neu o dan ddarpariaeth statudol.

(3) Y cyrff yw—

(a) y Comisiwn Archwilio,

(b) Archwilydd Cyffredinol yr Alban,

(c) Comisiwn Cyfrifon yr Alban,

(d) Audit Scotland,

(e) Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Gogledd Iwerddon,

(f) unigolyn a benodir yn archwilydd llywodraeth leol o dan Erthygl 4 o Orchymyn Llywodraeth Leol (Gogledd Iwerddon) 2005 (O.S. 2005/1968 (N.I.18)).

(4) Ystyr "parti cysylltiedig", mewn perthynas â chorff a grybwyllir yn isadran (3), yw-

(a) corff neu unigolyn sy'n gweithredu ar ei ran,

(b) corff y mae'n ofynnol i'w gyfrifon gael eu harchwilio ganddo neu gan unigolyn a benodir ganddo,

(c) unigolyn a benodir ganddo i archwilio'r cyfrifon hynny.

**(5)** Os bydd y data a ddefnyddir ar gyfer ymarfer paru data yn cynnwys data cleifion—

**(a)** mae isadran (2)(a) ond yn gymwys i'r graddau y mae diben y datgeliad yn ymwneud ag un o gyrff perthnasol y GIG,

**(b)** mae isadran (2)(b) ond yn gymwys i'r graddau y mae'r swyddogaeth ar gyfer neu mewn perthynas â gwneud y datgeliad yn ymwneud â'r cyfryw gorff.

**(6)** Yn isadran (5)—

**(a)** mae i "ddata cleifion" yr un ystyr ag yn adran 64C,

**(b)** ystyr "un o gyrff perthnasol y GIG" yw —

**(i)** corff y GIG yng Nghymru fel y'i diffinnir yn adran 60,

**(ii)** corff gwasanaeth iechyd fel y'i diffinnir yn adran 53(1) o Ddeddf y Comisiwn Archwilio 1998 (p. 18),

**(iii)** corff y GIG fel y'i diffinnir yn adran 22(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymunedol (yr Alban) 2002 (asp 5),

**(iv)** corff y mae Erthygl 90 o Orchymyn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 1972 (O.S. 1972/1265 (N.I. 14)) yn gymwys.

**(7)** Ni cheir datgelu gwybodaeth a ddatgelwyd o dan isadran (2) ymhellach ac eithrio—

**(a)** ar gyfer neu mewn perthynas â'r diben y'i datgelwyd o dan baragraff (a) neu'r swyddogaeth y'i datgelwyd ar ei chyfer o dan baragraff (b) o'r isadran honno,

**(b)** ar gyfer ymchwilio i drosedd neu erlyn trosedd (i'r graddau nad yw'r datgeliad yn dod o dan baragraff (a)), neu

**(c)** yn unol â dyletswydd a osodwyd gan neu o dan ddarpariaeth statudol.

**(8)** Ac eithrio fel yr awdurdodir gan isadrannau (2) a (7), mae unigolyn sy'n datgelu gwybodaeth y mae'r adran hon yn gymwys iddi yn euog o drosedd ac yn agored i—

**(a)** dwy flynedd o garchar fan bellaf, dirwy neu'r ddau os y'i collfernir drwy dditiad, neu,

**(b)** os y'i collfernir yn ddiannod, 12 mis o garchar fan bellaf, dirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol neu'r ddau.

**(9)** Nid yw Adran 54 yn gymwys i wybodaeth y mae'r adran hon yn gymwys iddi.

**(10)** Yn yr adran hon mae i "ddarpariaeth statudol" yr un ystyr ag yn adran 59(8).

# Atodiad 4: Manylion cyswllt

## Ymholiadau cyffredinol

Am wybodaeth am ymarferion paru data yr Archwilydd Cyffredinol gweler http://www.wao.gov.uk/whatwedo/1252.asp.

Fel arall cysylltwch â Chydgysylltydd Menter Twyll Genedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ (nfi@wao.gov.uk).

## Cwynion

Dylid cyfeirio cwynion ynghylch cyrff sy'n cymryd rhan yn ymarferion paru data'r Archwilydd Cyffredinol at y cyrff hynny. Ymdrinnir â chwynion ynghylch rôl yr Archwilydd Cyffredinol, neu rôl ei staff neu archwilwyr penodedig, wrth gynnal ymarferion paru data o dan weithdrefn gwyno Swyddfa Archwilio Cymru. Gellir gwneud cwynion o'r fath dros y ffôn, mewn e-bost neu lythyr gan eu cyfeirio at y Rheolwr Cwynion, Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ, 029 2032 0500 neu complaints@wao.gov.uk. Mae manylion pellach ynglŷn â gweithdrefn gwyno Swyddfa Archwilio Cymru ar gael yn http://www.wao.gov.uk/whoweare/howtocomplain.asp.